# 44ain Cynhadledd Flynyddol Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir

## Llawlyfr y Gynhadledd
27-30 Mai 2014

**#BIMR2014**

CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD
CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

COMMONWEALTH PARLIAMENTARY ASSOCIATION
NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynnwys

**Rhagair y Llywydd** .......... **4**
**Rhaglen y Gynhadledd** .......... **8**
**Bywgraffiadau** .......... **22**
Llywydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad .......... 23
Is-lywydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad .......... 24
Cadeirydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad .......... 25
Ysgrifennydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad .......... 27
Cadeirydd, Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad Rhyngwladol .......... 28
Cynrychiolwyr Rhanbarthol Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir .......... 29
Cyprus .......... 36
Ynysoedd Falkland .......... 44
Gibraltar .......... 45
Guernsey .......... 53
Ynys Manaw .......... 56
Jersey .......... 61
Malta .......... 66
Gogledd Iwerddon .......... 71
Yr Alban .......... 77
St Helena .......... 84
Y Deyrnas Unedig .......... 85
Cymru .......... 92
**Arsyllwyr Rhyngwladol** .......... **100**
Awstralia .......... 101
Canada .......... 103
Y Caribî .......... 105
Affrica .......... 109
**Siaradwyr y Gynhadledd** .......... **112**
**Staff Rheoli'r Gynhadledd** .......... **122**

# Rhagair y Llywydd

# Rhagair y Llywydd

## Y Fonesig Rosemary Butler AC



**Croeso cynnes iawn i bob un ohonoch**

Mae'n bleser gennyf i, fel Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywydd Cangen Cymru o'r CPA, eich croesawu i Gymru ac i 44ain Cynhadledd Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir (BIMR).

Y tro diwethaf i Gymru gynnal Cynhadledd BIMR oedd yn 2002 yn nyddiau cynnar datganoli.  Mae llawer wedi newid ers hynny; y newid mwyaf arwyddocaol oedd gwahanu'r Pwyllgor Gwaith a'r Canghennau Deddfwriaethol yn ffurfiol a chanlyniad llwyddiannus y refferendwm yn 2011 a roddodd bwerau deddfu sylfaenol i Gymru ym mhob pwnc o fewn yr 20 maes datganoledig.

I'r rhai ohonoch sy'n gynrychiolwyr profiadol o’r Ynysoedd Prydeinig a Rhanbarth Môr y Canoldir ac a oedd yma yn 2002, byddwch wedi sylwi bod gennym gartref newydd.  Agorwyd y Senedd ar Ddydd Gŵyl Dewi yn 2006, ac mae'n adeilad yr ydym falch ohono.  Mae wedi ennill llawer o wobrau am ei fod yn agored ac yn dryloyw ac am fod ei ddyluniad pensaernïol yn drawiadol a chynaliadwy. Mae yn awr yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol fel symbol eiconig o ddemocratiaeth Cymru.

# Rhagair y Llywydd

Thema ein cynhadledd yw "Cydraddoldeb o ran Mynediad at Ddemocratiaeth", a byddwn yn trafod y cwestiwn hollbwysig o sut i ddod â dinasyddion yn nes at y broses ddemocrataidd ac at y rhai a etholwyd i'w cynrychioli. Byddwn yn edrych yn benodol ar dri maes o dan y thema gyffredinol hon: *Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus; Rôl Ieithoedd Swyddogol mewn Seneddau;* ac *Ymgysylltu â Dinasyddion Ifanc*. Rydym yn edrych ymlaen at drafod, dysgu a rhannu'r arferion rhyngwladol gorau i hwyluso gwaith ein democratiaethau seneddol a'u cryfhau.

Felly, rwy'n gobeithio y bydd pob un ohonoch yn mwynhau cynhadledd ddiddorol ac ysgogol ac yn cael amser da gyda ni yma yng Nghymru.

**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
Llywydd y Cynulliad a Llywydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad

# Rhaglen y Gynhadledd

# Rhaglen y Gynhadledd

## Dydd Mawrth 27 Mai

Cynadleddwyr yn cyrraedd drwy gydol y dydd

10.00 – 16.30 Cofrestru yng ngwesty Dewi Sant

**Cynadleddwyr BIMR CWP**

**16.45** Gadael gwesty Dewi Sant

**17.00** **Cyfarfod BIMR CWP**
*Oriel y Senedd*
Cadeirydd: Patricia Ferguson MSP (Yr Alban)

**18.25** Gadael y Senedd i fynd i'r Pierhead

**Cynadleddwyr eraill**

**18.20** Gadael gwesty Dewi Sant

**18.30** **Derbyniad Croeso Anffurfiol o dan nawdd y Llywydd ac Aelodau Pwyllgor Gweithredol CPA Cymru**
Prif Neuadd y Pierhead

**19.30** Noson rydd i'r cynadleddwyr
Ceir rhestr o fwytai lleol a gaiff eu hargymell yn y Cylchlythyr Gwybodaeth ar gyfer y Gynhadledd.

# Rhaglen y Gynhadledd

## Dydd Mercher 28 Mai

**08.25** Cwrdd yng nghyntedd gwesty Dewi Sant

**08.30** Gadael gwesty Dewi Sant

**08.45** Cyrraedd y Senedd

**08.50** Cynadleddwyr yn mynd i Siambr y Senedd

**09.00** **Seremoni Agoriadol**

**09.25** **Egwyl**
*Ystafell De yr Aelodau*

**09.40** Y cynadleddwyr yn dychwelyd i'w seddi

**09.45** **Sesiwn 1 y Cyfarfod Llawn**

**Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus** (#POWiPL)
*Siambr y Senedd*

Cadeirydd: **Y Fonesig Rosemary Butler AC**
Ysgrifennydd: Alice Randone (Cymru)

Cyflwynwyr/panelwyr:

**Yr Athro Laura McAllister**
Ysgol Lywodraethiant Prifysgol Lerpwl
Cadeirydd Chwaraeon Cymru

**Stephen Brooks**
Cyfarwyddwr Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru

Sesiwn holi ac ateb i ddilyn

# Rhaglen y Gynhadledd

**11.00** **Egwyl**
*Ystafell De'r Aelodau*

**11.25** Y cynadleddwyr yn dychwelyd i'w seddi

**11.30** **Sesiwn 2 y Cyfarfod Llawn:**

**"Dwyieithrwydd a Rôl Ieithoedd Swyddogol mewn Seneddau"**
*Siambr y Senedd*

Cadeirydd: **Simon Thomas AC (Cymru)**
Ysgrifennydd: Al Davies (Cymru)

Cyflwynwyr/panelwyr:

**Rhodri Glyn Thomas AC**
Aelod y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros swyddogaethau a pholisi'r Comisiwn ar gyfer y Gymraeg

**Yr Athro Diarmait Mac Giolla Chríost**
Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

Sesiwn holi ac ateb i ddilyn

**12.45** **Llun Swyddogol y Gynhadledd**
*Neuadd y Senedd*

Cinio Bwffe
*Oriel y Senedd*

# Rhaglen y Gynhadledd

**13.55** Y cynadleddwyr yn cymryd eu seddi yn Ystafelloedd Pwyllgora 1/ 2 neu 3

**14:00** **Gweithdy A:**

**"Mwy na dim ond nifer - Sut y mae Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth?"**

Sut y mae cynrychiolaeth fenywaidd yn cael ei chynrychioli mewn polisi cyhoeddus

*Ystafell Bwyllgora 1/2*

Hwylusydd: **Patricia Ferguson MSP (Yr Alban)**

Rapporteur: **Jo-Anne Dobson MLA (Gogledd Iwerddon)**

Ysgrifennydd: Nicola Crawford (Gogledd Iwerddon)

**Gweithdy B:**

**"Ieithoedd Swyddogol mewn Seneddau – Ai Siarad Gwag Ydyw?"**

*Ystafell Bwyllgora 3*

Hwylusydd: **Yr Aelod Barry Paint (Guernsey)**

Rapporteur: **Yr Anrhydeddus Carmelo Abela (Malta)**

Ysgrifennydd: John Vella (Malta)

# Rhaglen y Gynhadledd

**15.00** Egwyl
*Ystafell De'r Aelodau*

(**Arsyllwyr Rhyngwladol** – Diwedd Rhaglen y Dydd / Amser rhydd)

**15.25** Cynadleddwyr BIMR yn cymryd eu seddi

**15.30** **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol BIMR**
*Y Siambr*

**16.45** Gadael y Senedd

**17.00** Cyrraedd gwesty Dewi Sant

# Rhaglen y Gynhadledd

## Gyda'r nos

**18.00** Ymgynnull yng nghyntedd gwesty Dewi Sant

**18.15** Gadael Bae Caerdydd ar gwch

**19.00** Cyrraedd Castell Caerdydd
Derbyniad Diodydd

*Y Llyfrgell a'r Parlwr*

**19.45** **Cinio Swyddogol**

o dan nawdd Is-lywydd CPA Cymru
**David Melding AC**

*Y Neuadd Wledda*

**Areithiau:**

**Patricia Ferguson MSP**
Is-gadeirydd CWP Rhyngwladol a Chadeirydd BIMR CWP

**Syr Alan Haselhurst AS**
Cadeirydd CPA Pwyllgor Gweithredol Rhyngwladol

**Llwncdestun**

**Mohammad Ashgar AC**
Pwyllgor Gweithredol Cangen CPA Cymru

**22.00** Gadael y castell mewn bws

**22.15** Cyrraedd gwesty Dewi Sant

# Rhaglen y Gynhadledd

## Dydd Iau 29 Mai

**08.40** Ymgynnull yng nghyntedd gwesty Dewi Sant

**08.45** Gadael gwesty Dewi Sant

**09.05** Cyrraedd Tŷ Hywel
Y cynadleddwyr yn mynd i Siambr Hywel

**09.15** **Sesiwn 3 y Cyfarfod Llawn**

**"Ymgysylltu Dinasyddion Ifanc â'r Broses Ddemocrataidd"**
*Siambr Hywel*

Cadeirydd: **David Melding AC** (Cymru)
Ysgrifennydd: Roger Philips (Ynys Manaw)

**Rhan 1**

Yr Ysgolion sy'n cymryd rhan ym Mhencampwriaeth Drafod Ysgolion Cymru:

Dadl: "**Cred y Tŷ hwn bod pleidiau gwleidyddol ar hyn o bryd yn methu ag ymgysylltu â phobl ifanc"**

Cynigir gan: **Tîm Ysgolion Radyr / Esgob Llandaf**
Gwrthwynebir gan: **Ysgol Dyffryn Aman**

Sesiwn holi ac ateb i ddilyn

**10.30** **Egwyl**
*Y Man Ymgynnull*

# Rhaglen y Gynhadledd

**10.45** **Rhan 2**

**"Creu Genhedlaeth sy'n Pleidleisio: Mynd Ar y Trywydd Cywir"**

**Cyflwynydd:**
**Kyle Thornton MSYP**

Cadeirydd, Senedd Ieuenctid yr Alban

**11.30** **Egwyl**
*Y Man Ymgynnull*

**11.40** Cynadleddwyr i gymryd eu seddi

**11.45** **Gweithdy C:**
**"Cyfryngau Cymdeithasol a Thu hwnt**
**Sut yn Union yr Ydym yn Ymgysylltu â Dinasyddion Ifanc?"**
*Siambr Hywel*

Hwylusydd: **William Powell AC** (Cymru)
Rapporteur: **Yr Aelod Sam Mézec** (Jersey)
Ysgrifennydd: Michael de la Haye (Jersey)

**Gweithdy D:**
**Yr Achos dros Seneddau Ieuenctid -**
**Pa Ddylanwad sydd ganddynt o ran Llywio Barn Gyhoeddus?"**
*Ystafell Ddosbarth Siambr Hywel*

Hwylusydd: **Y Cyngh Les Baldwin** (St Helena)
Rapporteur: **Alfred Cannan MHK** (Ynys Manaw)
Ysgrifennydd: **Simon Ross** (Guernsey)

# Rhaglen y Gynhadledd

**12.30** Cynadleddwyr yn gadael i fwyty Ffresh
Canolfan Mileniwm Cymru (CMC)

**Cinio**

**13.30** Coffi a Chacen yn Ystafell De'r Aelodau

Paratoad Rapporteurs y Gweithdai

**13.55** Cynadleddwyr i gymryd eu seddi yn Siambr y Senedd

**14.00** Cyfarfod Llawn Olaf – **Adrodd yn ôl o Weithdai A-D**

Cadeirydd**: Joyce Watson AC** (Cymru)
Ysgrifennydd: Margaret Neal (Yr Alban)

**15.10** **Sylwadau i Gloi'r Gynhadledd**

**15.15** Gadael y Senedd

Amser Rhydd

# Rhaglen y Gynhadledd

## Gyda'r nos

**19.10** Ymgynnull yng nghyntedd y Gwesty

**19.15** Gadael Gwesty Dewi Sant - cerdded

**19.30** Cyrraedd y Senedd

**Cinio Gala i Ffarwelio**
**o dan nawdd Y Fonesig Rosemary Butler AC**

Areithiau

Cyngerdd Gala

Llwncdestun: **Dr. Pambos Papageorgiou, AS**
Cangen CPA Cyprus

**22.30** Gadael y Senedd

# Rhaglen y Gynhadledd

## Dydd Gwener 30 Mai

Diwrnod Gadael

**Diwrnod Diwylliant Dewisol – Rhaglen Ddrafft**

### Bore:

**09.30** Cwrdd yng nghyntedd Gwesty Dewi Sant

**09.45** Taith breifat o amgylch **Canolfan Mileniwm Cymru** (Bae Caerdydd)
**www.wmc.org.uk/yourVisit**

**11.00** Taith o amgylch **Dr Who Experience** y BBC (Bae Caerdydd)
**www.doctorwhoexperience.com/experience**

### Prynhawn:

**12.15** Cinio Bwffe yn yr **Eglwys Norwyaidd** (Bae Caerdydd)
**www.norwegianchurchcardiff.co.uk**

**13.00** Gadael Bae Caerdydd mewn bws

**13.30** Ymweld ag Amgueddfa **Sain Ffagan**
**www.museumwales.ac.uk/stfagans**

**15.45** Gadael ar fws am Ganol y Ddinas

**16:30** – Taith breifat o amgylch **Stadiwm y Mileniwm**
**www.millenniumstadium.com/tours**

**17.30** Y dewis o ddychwelyd ar fws i Westy Dewi Sant, Bae Caerdydd

Gyda'r nos yn rhydd



# Bywgraffiadau

# Bywgraffiadau

## Llywydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad



**Y Fonesig Rosemary Butler AC**

Cafodd y Fonesig Rosemary ei hethol i'r Senedd ym 1999 a hi yw Aelod Cynulliad Gorllewin Casnewydd. Ym mis Mai 2011, cafodd ei hethol yn Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol mewn pleidlais unfrydol gan Aelodau'r Cynulliad. Roedd yn Ddirprwy Lywydd yn ystod y Trydydd Cynulliad (2007-2011). Hi yw Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad a'r Pwyllgor Busnes, ac mae'n cynrychioli'r Cynulliad yng nghyfarfodydd CALRE.

Ymunodd y Fonesig Rosemary â'r blaid Lafur ym 1971 a dwy flynedd yn ddiweddarach cafodd ei hethol yn gynghorydd y blaid Lafur ar gyfer Caerllion yng Nghyngor Bwrdeistref Casnewydd, swydd yr oedd ynddi nes iddi gael ei hethol i'r Cynulliad ym 1999. Tra roedd ar y Cyngor, gwasanaethodd fel Dirprwy Arweinydd a Maer Casnewydd. Yn ei rôl fel Llywydd, mae wedi bod yn brysur yn sefydlu ei hymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus.

Yn ei hamser rhydd mae'n mwynhau chwaraeon, y celfyddydau a theithio dramor. Cafodd ei gwneud yn Fonesig yn Rhestr Anrhydeddau’r Flwyddyn Newydd yn 2014.

# Bywgraffiadau

## Is-lywydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad



**David Melding AC**

Cafodd David ei ethol i'r Senedd ym 1999 ac ef yw Aelod Cynulliad Canol De Cymru.  Ym mis Mai 2011 cafodd ei ethol yn Ddirprwy Lywydd.  Ef yw Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog.  Mae'n cynrychioli'r Cynulliad yng nghyfarfodydd BIPA.

Cyn dechrau mewn gwleidyddiaeth, bu David yn gweithio yn y sector gwirfoddol (dielw) a bu'n gyfarwyddwr Cymru i elusen ymgyrchu fawr yn y DU.  Ef yw awdur 'Will Britain Survive Beyond 2020?' a 'The Reformed Union: Britain as a Federation'.  Rhai o ddiddordebau polisi eraill David yw materion plant (yn arbennig plant sy'n derbyn gofal), mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol, ac iechyd meddwl.  Ym mis Mai 2011 cafodd ei benodi'n Ddirprwy Lywydd.

Y tu allan i'r Cynulliad, mae David yn mwynhau cerdded, nofio a darllen.

# Bywgraffiadau

## Cadeirydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad



**Mrs Joyce Watson AC**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod Cynulliad dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru

**Etholwyd i'r Cynulliad am y tro cyntaf:** 2007

**Crynodeb gyrfa:**
Mae Joyce yn eistedd ar dri o bwyllgorau'r Cynulliad: Y Pwyllgor Menter a Busnes, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r Pwyllgor Deisebau.

Mae'n cadeirio Grwpiau Trawsbleidiol y Cynulliad ar Adeiladu, Masnachu mewn Pobl a Strôc. Hi hefyd yw Cadeirydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, ac mae'n un o gynrychiolwyr y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig a Chyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol yng Nghyngor Ewrop.

Yn 2010, cyhoeddodd Joyce Ffiniau Pryder, adroddiad ar fasnachu mewn pobl yng Nghymru. Fel rhan o'r ymgyrch Rhuban Gwyn i gefnogi'r frwydr yn erbyn trais yn y cartref, mae hi wedi recriwtio dynion yn llysgenhadon ac wedi recriwtio llysgenhadon o fyd chwaraeon. Yn 2009, sefydlodd Joyce y rhwydwaith Menywod mewn Adeiladu – mae hi'n parhau i weithio gyda chyflogwyr a chyrff masnach i gael mwy o bobl ifanc a menywod i mewn i'r diwydiant adeiladu.

# Bywgraffiadau

Cyn iddi gael ei hethol i'r Cynulliad, Joyce oedd arweinydd y grŵp Llafur ar Gyngor Sir Penfro. Hi oedd rheolwr Llais Merched, Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru, ac roedd yn uwch aelod o Grŵp Cyllidebau ar Sail Rhyw Cymru a Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb y GIG.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Cynhadledd Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir, Caeredin (2012)
Cynhadledd Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir, Ynysoedd Falkland (2013)
Seminar Ôl-etholiadol, St Helena (2013)
Cynhadledd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad Rhif 59, Johannesburg (2013)
Cynhadledd Agoriadol Seneddwragedd y Gymanwlad Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir, Caeredin (2014).

**Diddordebau:**
Ffotograffiaeth, cerddded a bywyd gwyllt.

# Bywgraffiadau

## Ysgrifennydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad



**Claire Clancy**

Cychwynnodd Claire ar ei gwaith fel Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad ym mis Chwefror 2007. Hi sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan y Cynulliad, a'r 60 Aelod Cynulliad, yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen i ddatblygu Cynulliad sy'n ennyn hyder ac sydd ag enw da yng Nghymru a thu hwnt am ddemocratiaeth hygyrch ac effeithlon.

Mae Claire wedi treulio llawer o flynyddoedd yn gweithio mewn sefydliadau sy'n rhoi pwyslais cryf ar gyflawni ac ar ddarparu ar gyfer cwsmeriaid. Cyn iddi ymuno â'r Cynulliad, Claire oedd Prif Weithredwr Tŷ'r Cwmnïau a'r Cofrestrydd Cwmnïau, gyda throsiant o £70 miliwn a 1,200 o weithwyr. Cyn hynny, bu'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn y Swyddfa Batentau. Ar ddiwedd y 1990au, treuliodd ddwy flynedd ar ynys St Helena lle'r oedd ei gŵr yn Brif Ysgrifennydd ac yna'n Llywodraethwr yno; yn ystod y cyfnod hwn, bu'n gwneud peth gwaith addysgu a gwaith gwirfoddol fel paratoi cynlluniau ar gyfer amgueddfa i'r ynys. Ymunodd Claire â'r gwasanaeth sifil ym 1977 a bu'n gweithio yn y Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr, yr Adran Gyflogaeth a Swyddfa'r Llywodraeth ar gyfer De-orllewin Lloegr. Bu hefyd yn Brif Weithredwr ar Gyngor Hyfforddiant a Menter Powys a arweiniwyd gan y sector breifat. Mae ganddi radd mewn seicoleg o'r Brifysgol Agored.

# Bywgraffiadau

## Cadeirydd, Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad Rhyngwladol



**Syr Alan Haselhurst AS**

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Cadeirydd y Pwyllgor Gweinyddu; Cadeirydd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn y DU a Phwyllgor Gweithredol Rhyngwladol y Gymdeithas.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 1970

**Crynodeb gyrfa:**
Prif weithredwr, y diwydiant cemegolion a phlastigion 1960 -70; Ymgynghorydd Materion Cyhoeddus 1974-97. Hanes etholiadol: Aelod dros Middleton a Prestwich 1970-Chwefror 1974; Aelod dros Saffron Walden ers is-etholiad 7 Gorffennaf 1977 tan 2010, (dros Saffron Walden (ffiniau newydd) ers yr etholiad cyffredinol ar 6 Mai 2010). Gyrfa Seneddol: Ysgrifennydd Seneddol Preifat 1973-74; Ysgrifennydd Seneddol Preifat yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Gwyddoniaeth 1979-81; Cadeirydd y Pwyllgor Dull a Modd a'r Dirprwy Lefarydd 1997-2010. Pwyllgorau'r Cynulliad Cadeirydd ex-officio: Panel y Cadeiryddion 1997-2010; aelod ex-officio: Llys y Dyfarnwyr 1997-2010, Rheolau Sefydlog 1998-2010, Biliau Diwrthwynebiad (Panel) 2000-10; Aelod: Deddfwriaeth Ewropeaidd, 1982–97, Arlwyo, 1991–97, Trafnidiaeth, 1992–97; Cyllid a Gwasanaethau 2008-, Cyswllt 2010-, Pwyllgor Eglwysig 2010-; Celfyddydwaith 2011-.
**Diddordebau**:
Addysg, awyrofod, awyrennau, materion ieuenctid, Undeb Ewropeaidd, amaethyddiaeth, datblygu cymunedol a chriced.

# Bywgraffiadau

## Cynrychiolwyr Rhanbarthol Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir



**Yr Aelod Michael George O'Hara**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Gweinidog Diwylliant a Hamdden

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2001

**Crynodeb gyrfa:**
Dyn busnes

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Llawer o gynadleddau Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad gan gynnwys Caerdydd 2002, Caeredin 2012, Colombo 2012, De Affrica 2013

**Diddordebau:**
Pysgota a chriced

# Bywgraffiadau

## Cynrychiolwyr Rhanbarthol Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir



**Yr Anrhydeddus Carmelo Abela AS**

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Chwip Grŵp Seneddol y Llywodraeth; Aelod o Bwyllgor Busnes y Tŷ.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 1996.

**Crynodeb gyrfa:**
Cynghorydd - Cyngor Lleol Zejtun; Aelod Seneddol o 1996 hyd heddiw - y Blaid Lafur (Grŵp Sosialaidd).

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Amryw, yn cynnwys Cynadleddau Blynyddol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yng Nghanada a De Affrica a BIMR Cyprus.

**Diddordebau:**
Chwaraeon, yn enwedig pêl-droed.

# Bywgraffiadau

## Cynrychiolwyr Rhanbarthol Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir



**Dr Roberta Blackman-Woods AS.**

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Gweinidog yr Wrthblaid dros Gymunedau a Llywodraeth Leol.

**Crynodeb gyrfa:**
Roberta Blackman-Woods yw'r AS dros Ddinas Durham ers 2005. Mae Roberta yn aelod o weithrediaeth cangen y DU o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad ers 2007 a hi yw un o is-gadeiryddion y Gymdeithas ar hyn o bryd. Yn ogystal â bod yn aelod o'r Gymdeithas, mae Roberta hefyd yn aelod o nifer o Grwpiau Hollbleidiol. Sefydlodd y Grŵp Hollbleidiol dros Gymunedau Cynaliadwy a Chytbwys, a hi'n sy'n ei gadeirio, ac mae'n gyd-gadeirydd y Grŵp Hollbleidiol dros Brifysgolion.

Ym mis Hydref 2011, penodwyd Roberta yn Weinidog yr Wrthblaid dros Gymunedau a Llywodraeth Leol a, chyn hynny, bu'n Weinidog yr Wrthblaid dros Gymdeithas Sifil yn Swyddfa'r Cabinet, yn Weinidog yr Wrthblaid dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau ac yn Ysgrifennydd Preifat Seneddol.

# Bywgraffiadau

Cyn cael ei hethol i'r Senedd, roedd Roberta yn Athro Polisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Northumbria, Pennaeth Polisi yn yr Uned Wybodaeth Llywodraeth Leol ac yn Gynghorydd yng Nghyngor Dinasoedd Newcastle a Dinas Rhydychen.

**Diddordebau:**
Tai, cynllunio, datblygu rhyngwladol, materion tramor ac adfywio

# Bywgraffiadau

## Cynrychiolwyr Rhanbarthol Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir



**Patricia Ferguson MSP (yr Alban), Is-gadeirydd Seneddwragedd y Gymanwlad a Chadeirydd Seneddwragedd y Gymanwlad Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Is-gadeirydd Grŵp Llywio CWP;
Cadeirydd Pwyllgor Llywio CAP BIMR;
Aelod o Bwyllgor Gweithredol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn yr Alban;
Ysgrifennydd Cabinet yr wrthblaid dros Ddiwylliant a Materion Allanol.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 1999

**Crynodeb gyrfa:**
Bu'n fraint i Patricia Ferguson gael cynrychioli ardal Maryhill yn Glasgow ers sefydlu Senedd yr Alban yn 1999. Yn 2011 cafodd ei hethol fel yr MSP cyntaf dros etholaeth newydd Maryhill a Springburn. Mae'n gyn Ddirprwy Lywydd Senedd yr Alban. Ym mis Tachwedd 2001 cafodd ei phenodi'n Weinidog Busnes Seneddol, a bu yn y swydd honno tan fis Hydref 2004 pan gafodd ei phenodi'n Weinidog dros Dwristiaeth, Diwylliant a Chwaraeon.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
2012: cynhadledd BIMR, Caeredin;
2013: Cynhadledd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, Johannesburg.

**Diddordebau:**
Diwylliant, chwaraeon, materion allanol, tai.

# Bywgraffiadau

## Cynrychiolwyr Rhanbarthol Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir



**Andrew Tuggey DL, Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd, Ysgrifenyddiaeth Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Ysgrifennydd BIMR; Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn y DU.

# Bywgraffiadau

## Cyprus



**Mrs Christiana Solomonidou**

---

**Crynodeb gyrfa:**
Uwch swyddog cysylltiadau rhyngwladol yn Nhŷ Cynrychiolwyr Cyprus. Mae'n gweithio yn y Tŷ ers 2000.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Holl gynadleddau BIMR a CPC ers 2001 (ac eithrio CPC 2004 a'r 39ain a'r 43ain Cynhadledd Ranbarthol). CSPOC: Seland Newydd 2002 Botswana, Kenya 2006, 2014.

# Bywgraffiadau

## Cyprus



**Mr George Tasou AS**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Cadeirydd Pwyllgor Sefydlog y Tŷ dros Faterion Addysgol.

Aelod o Bwyllgor Sefydlog y Tŷ dros Amaethyddiaeth ac Adnoddau Naturiol. Aelod o ddirprwyaeth y Tŷ yng Nghymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA). Comisiynydd DISY dros Amaethyddiaeth ac Adnoddau Naturiol a Chydlynydd y blaid dros faterion amaethyddol yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr ers 2001.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2001

**Crynodeb gyrfa:**
Llywydd Undeb Ffermwyr Cyprus Gyfan (PEK) (1976-1989).
Llywydd Pwyllgor Lleol Xylofagou DISY (1978-1988).
Aelod o Fwrdd Pwyllgor Cynghori a Dosbarth Larnaka ar gyfer gweinyddu eiddo Cypraidd Twrcaidd (1989-1995) a Bwrdd Marchnata Tatws Cyprus (1992-1998).
Sylwedydd Senedd Ewrop ar ran y Tŷ yn aelod o grŵp gwleidyddol Plaid Pobl Ewrop (2003).
Aelod o Gymdeithas Gwrthgyffuriau Larnaka.
Comisiynydd DSIY dros Amaethyddiaeth ac Adnoddau Naturiol a chydlynydd y blaid dros faterion amaethyddol yn y Tŷ ers 2001.

# Bywgraffiadau

Ysgrifennydd Rhanbarth Cymdeithas Ffermwyr Larnaka, aelod o Bwyllgor y Ffermwyr, Goruchaf Gyngor Cymdeithas y Ffermwyr a chyrff cyfunol y gymdeithas ers 1989.
Aelod o Ysgrifenyddiaeth Gweithrediaeth Dosbarth Larnaka a Chyngor Dosbarth Larnaka DISY ers 1976.
Aelod o oruchaf gyngor DISY a Biwro Gwleidyddol DISY ers 1976.
Rhestr o gynadleddau, seminarau,  ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y bu'n bresennol ynddynt:
Cynadleddau CPC blynyddol rhwng 2009 a 2013.
41ain a 42ain cynhadledd BIMR.

**Diddordebau:**
Materion amaethyddol, lles a phlant ag anghenion arbennig.



# Bywgraffiadau

## Cyprus



**Dr Pambos Papageorgiou AS**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor Sefydlog y Tŷ dros Ffoaduriaid, Pobl wedi'u Hynysu a Phobl yr Effeithiwyd yn Andwyol arnynt.
Aelod o Bwyllgorau Sefydlog y Tŷ: (1) Materion Ariannol a Chyllidebol (2) Cynlluniau Datblygu a Rheoli Gwariant Cyhoeddus
Aelod o ddirprwyaeth y Tŷ yng Nghymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA).

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2011

**Crynodeb gyrfa:**
Athro athroniaeth ym Mhrifysgol Ewropeaidd Cyprus.
Cyn-aelod ExCo CPA o BIMR

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
CPC Llundain, Gorffennaf 2011. CPC Sri Lanka, Medi 2012. CPC De Affrica, Medi 2013. Cyfarfod ExCo Llundain, Rhagfyr 2011. 42ain Cynhadledd BIMR, Mehefin 2012.

**Diddordebau:**
Craffu, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, arsylwi'r etholiad.

# Bywgraffiadau

## Cyprus



**Mr Sophocles Fittis AS**

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Clerc gweinyddol y Tŷ. Cadeirydd Pwyllgor Sefydlog y Tŷ dros Hawliau Dynol a thros Gyfle Cyfartal i Ddynion a Menywod.  Aelod o Bwyllgor Sefydlog y Tŷ dros: Amaethyddiaeth ac Adnoddau Dynol, yr Amgylchedd, Ffoaduriaid - Pobl wedi'u Hynysu, ar Goll neu yr Effeithiwyd yn Andwyol arnynt.  Aelod o ddirprwyaeth y Tŷ yng Nghynulliad Seneddol y Sefydliad ar gyfer Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop (OSCE) ac o'r ddirprwyaeth yng Nghymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA).

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2001

**Crynodeb gyrfa:**
Ysgrifennydd cynorthwyol Cyngor Lles Cyprus Gyfan (PSE).
Aelod o Bwyllgor Dosbarth Kyrenia y Blaid Ddemocrataidd (DIKO).
Aelod o Bwyllgor Canolog DIKO.

# Bywgraffiadau

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Pob cynhadledd BIMR rhwng 2003 a 2012. Cynadleddau CPC blynyddol rhwng 2003 a 2013. Seminar Cangen y DU, Ymfudo rhyngwladol a masnachu mewn pobl, Chwefror 2009. Cynhadledd ar y cyd rhwng Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a WBI ar rôl y seneddau mewn ardaloedd lle mae gwrthdaro (Hydref 2010). Cynhadledd ryngwladol ar Amcanion Datblygu'r Mileniwm, 8 Tachwedd – 2 Rhagfyr 2011. Cynhadledd Seneddol Ryngwladol ar yr Agenda Datblygu ar ôl 2015, Tachwedd 2013. Digwyddiad diwrnod ar Gydraddoldeb a Grymuso Menywod (Cangen y DU), Tachwedd 2013.

**Diddordebau:**
Hawliau dynol, datblygu amaethyddol a gwledig.



# Bywgraffiadau

## Ynysoedd Falkland



**Yr Anrhydeddus Dr Barry Elsby MLA**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Addysg, Datblygu Ieuenctid, Chwaraeon a Hamdden, Celf a Diwylliant, Iechyd, Gwasanaethau Brys.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2011

**Crynodeb gyrfa:**
1981: Wedi'i gymhwyso fel meddyg – Prifysgol Llundain, wedi'i hyfforddi fel meddyg teulu.
1987-90: Meddyg, yr Emiradau Arabaidd Unedig.
1990 - hyd heddiw: Meddyg, Ynysoedd Falkland.
2011 - hyd heddiw Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Seminar yn San Steffan, 2012.
Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir, Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA), Ynysoedd Falkland, 2013.
Cyfarfod Llawn y CPA, Johannesburg, 2013.

**Diddordebau:**
Garddio a hwylio.

# Bywgraffiadau

## Gibraltar



**Mr Paul Edward Martinez**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Clerc i Senedd Gibraltar.

**Crynodeb gyrfa:**
Ymunodd â'r Gwasanaeth Sifil yn 1977. Gwasanaethodd mewn amrywiol adrannau: Rheolwr Tai 1998 - 2001, Swyddog Trafnidiaeth 2001 – 2012, Pennaeth Caffael 2012 – 2014.

Penodwyd yn aelod o'r Llynges Frenhinol wrth gefn yn 1977, ymddeolodd o'i swydd yn Is-gomander yn 1993.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**

Ynysoedd Falkland 2004

**Diddordebau:**
Hwylio, teithio, ffotograffiaeth a hanes morwrol.

# Bywgraffiadau

## Gibraltar



**Yr Anrhydeddus James Joseph Netto AS**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Gweinidog yr Wrthblaid dros Iechyd a Diogelwch, Cyfleustodau a'r Amgylchedd.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 1996

**Crynodeb gyrfa:**
Undebwr Llafur; Gweinidog Llywodraeth 1996-2011; Llefarydd yr Wrthblaid ar Iechyd a Diogelwch, Cyfleustodau a'r Amgylchedd.
Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas y Gymanwlad yr aeth iddynt:
Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir: Gibraltar 2008, Guernsey 2009, Ynys Manaw 2010, yr Alban 2012;
Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad: Canada, Mawrisiws, Tansanïa 2009, De Affrica 2012.

**Diddordebau:**
Cerdded cefn gwlad a darllen athroniaeth.

# Bywgraffiadau

## Gibraltar



**Yr Anrhydeddus Steven Ernest Linares AS**

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Y Gweinidog Chwaraeon, Diwylliant, Treftadaeth ac Ieuenctid

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2000

**Crynodeb gyrfa:**
Athro (cyn dod yn AS);
Y Gweinidog Chwaraeon, Diwylliant, Treftadaeth ac Ieuenctid

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**

– 2000: Cynadleddau Rhanbarthol Ynys Manaw; Cynhadledd Cyfarfod Llawn Llundain a Chaeredin; Cynhadledd Ranbarthol Jersey.

– 2001: Cynhadledd Ranbarthol Caeredin; Cynhadledd Cyfarfod Llawn Awstralia.

– 2002: Cynhadledd Cyfarfod Llawn Namibia.

# Bywgraffiadau

– 2003: Cynhadledd Ranbarthol Jersey.

– 2004: Cynhadledd Ranbarthol Ynysoedd Falkland.

– 2009: Cynhadledd Cyfarfod Llawn Tansanïa.

– 2010: Cynhadledd Ranbarthol Ynys Manaw a Chynhadledd Canghennau Bach Kenya.

**Diddordebau:**
Gweithgareddau awyr agored, heicio.

# Bywgraffiadau

## Gibraltar



**Yr Anrhydeddus Samantha Jane Sacramento AS**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Gweinidog Cydraddoldeb, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Henoed

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2011

**Crynodeb gyrfa:**
Hydref 2001 – Rhagfyr 2003: Swyddog Materion Cyfreithiol, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Caerdydd;
Mai 2004 – Rhagfyr 2011 Bargyfreithiwr Attias & Levy; Rhagfyr 2011 – hyd heddiw: Gweinidog Cydraddoldeb, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Henoed, Llywodraeth Gibraltar.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**

Cynhadledd Ranbarthol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir): Ynysoedd y Falkland 2013; CPC: De Affrica 2013; Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad 2014

**Diddordebau:**
Gwleidyddiaeth a materion cyfoes; ffotograffiaeth; teithio; pobi cacennau arbennig.



# Bywgraffiadau

## Gibraltar



**Yr Anrhydeddus Edwin Joseph REYES AS**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Gweinidog yr Wrthblaid dros Addysg, Tai, Diwylliant, Treftadaeth, Ieuenctid, Chwaraeon a Hamdden

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2007

**Crynodeb gyrfa:**
Ymunodd â'r Gwasanaeth Sifil fel Swyddog Clercio yn 1973 a bu'n gweithio yn Ysgrifenyddiaeth y Llywodraeth. Yn ddiweddarach, bu'n athro ysgol cymwysedig tan iddo sefyll mewn etholiadau yn 2007.

Penodwyd yn aelod gwirfoddol o'r Awyrlu Brenhinol wrth gefn yn 1991 a gwasanaethodd gyda Sgwadron Tramor (Gibraltar) Rhif 2 y Corfflu Hyfforddiant Awyr. Cafodd ddyrchafiad i Awyr-lefftenant ac fe'i penodwyd yn Brif Swyddog Sgwadron Gibraltar yn 2000 tan iddo ymddeol o'r Gwasanaeth Gwirfoddol ym mis Medi 2003.

Safodd etholiad i Senedd Gibraltar ym mis Hydref 2007 ac roedd yn gyfrifol am bortffolio'r Gweinidog Diwylliant, Treftadaeth, Chwaraeon a Hamdden tan fis Rhagfyr 2011.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir: Ynys Manaw 2010; Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad: Sri Lanka 2012

**Diddordebau:**
Chwaraeon a Ffotograffiaeth

# Bywgraffiadau

## Guernsey



**Yr Aelod Barry John Edward Paint**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod o Adran yr Amgylchedd, yr Adran Tai, y Pwyllgor Craffu

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2008

**Crynodeb gyrfa:**
Morgludiant/Peilot Porthladdoedd

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Seminar yn St. Helena ar ôl yr etholiad, 2013

# Bywgraffiadau

## Guernsey



**Yr Aelod Sandra Anne James**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Nawdd Cymdeithasol, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2012

**Crynodeb gyrfa:**
Nyrsio/Swyddog Undeb Llafur.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Caeredin 2012, Johannesburg 2013, Seneddwragedd y Gymanwlad Caeredin 2014.

**Diddordebau:**
Cydraddoldeb rhwng y rhywiau/materion cymdeithasol.

# Bywgraffiadau

## Guernsey



**Mr Simon Michael Davidson Ross**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Dirprwy Gofrestrydd Ei Mawrhydi/Clerc Cynorthwyol.

**Crynodeb gyrfa:**
Ysgolfeistr, Pacistan 1986-1989, Gwasanaeth Sifil Cynulliad Guernsey ers 1993; galwyd i'r bar yn 2007 (y Deml Ganol); Uwch Ddirprwy Gofrestrydd ers 2012.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Llawer o gynadleddau Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ers 2000 gan gynnwys: Caerdydd 2002, Canmlwyddiant Llundain 2011, Colombo 2012 ac Ynysoedd Falkland 2013.

**Diddordebau:**
Coginio a hwylio.

# Bywgraffiadau

## Ynys Manaw



**Mr Alfred Louis Cannan MHK**

---

**Swydd neu Bortffolio seneddol presennol:**

Aelod dros etholaeth Michael ers 2011.

Cadeirydd Comisiwn y Gwasanaeth Sifil ers 2011.

Cadeirydd Cyngor Whitley ers 2011.

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ers 2012.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2011

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Ymweliad Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad â San Steffan yn 2012.

**Diddordebau:**

Addysg, iechyd a chwaraeon.

# Bywgraffiadau

## Ynys Manaw



**Mr Michael Coleman MLC**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod o'r Cyngor Deddfwriaethol; Aelod Gwleidyddol o'r Adran Gofal Cymdeithasol;
Aelod Gwleidyddol o'r Adran Materion Cartref sy'n gyfrifol am garchardai/ gwasanaethau prawf;
Is-gadeirydd y Swyddfa Masnachu Teg; Aelod o'r Pwyllgor Sefydlog ar Adolygu Polisi Economaidd

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2013

**Crynodeb gyrfa:**
Aelod o Fwrdd Dŵr a Charthffosiaeth Ynys Manaw ers 11 o flynyddoedd; Aelod o Banel Cwynion Diwydiannol y GIG ers 12 o flynyddoedd; Aelod o'r Tribiwnlys Apeliadau Gwarchod Data ers pum mlynedd;
Aelod o fwrdd Corfforaeth Trydan Ynys Manaw ers 18 mis.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Dyma'r cyntaf.

# Bywgraffiadau

## Ynys Manaw



**Mr Roger Phillips, Clerc Tynwald**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Clerc Tynwald

**Crynodeb gyrfa:**
Ymarfer yn y bar rhwng 1978 a 1981; Clerc Tŷ'r Cyffredin rhwng 1981 a 2008; Clerc Tynwald, Ysgrifennydd Tŷ'r Allweddi a chyngorydd i'r Llefarydd ers 2008.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Pob cynhadledd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad dros y pum mlynedd diwethaf

**Diddordebau:**
Paentio ac arlunio, bywyd teuluol.

# Bywgraffiadau

## Ynys Manaw



**Richard Ronan MHK**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod dros Castletown

Cadeirydd, yr Adran Gynllunio; Aelod dros Awdurdodau Lleol; Aelod dros Fwyd – Adran yr Amgylchedd ac Amaethyddiaeth;

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2011

**Crynodeb gyrfa:**
Busnes adeiladu ers 1984; Comisiynydd lleol rhwng 2004 a 2011

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau neu Weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
San Steffan, 2012.

**Diddordebau:**
Chwaraeon, yn arbennig pêl-droed.

# Bywgraffiadau

## Ynys Manaw



**Mr Chris Thomas MHK**

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod o Bwyllgor Rheoliadau Adeiladu.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2013


**Crynodeb gyrfa:**
Dadansoddwr Ariannol, Rheolaeth Ariannol.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Dyma'r cyntaf.

**Diddordebau:**
Llywodraethu, economeg, trafnidiaeth ac addysg.

# Bywgraffiadau

## Jersey



**Mr Michael Nelson de la Haye**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Cofrestrydd Cynulliad Jersey (Clerc)

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 1999

**Crynodeb gyrfa:**
Prif Glerc, Adran Swyddogion y Gyfraith Jersey 1994 – 1999;
Cofrestrydd Cynorthwyol Cynulliad Jersey 2000 – 2002;
Dirprwy Gofrestrydd Cynulliad Jersey 2000 – 2002;
Cofrestrydd Cynulliad Jersey (Clerc) hyd heddiw.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Canghennau bach a CPC - Namibia 2002, Canada 2004, Nigeria 2006, Maleisia 2008, Tansanïa 2009, y DU 2011, De Affrica 2013.

Cynhadledd Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir – Caeredin 2002, Ynysoedd Falkland 2004, Jersey 2005, Gibraltar 2008, Ynys Manaw 2010.

**Diddordebau:**
Beicio, cerdded (yn enwedig bryniau a mynyddoedd), hwylio, hanes lleol.

# Bywgraffiadau

## Jersey



**Connétable Juliette Gallichan**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod o'r Panel Ceisiadau Cynllunio;
Aelod o Comité des Connétables;
Llywydd Adran Jersey o'r Assemblée Parlementaire de la Francophonie.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2005

Tua 20 mlynedd yn gweithio yn y gwasanaethau ariannol a sectorau cyfreithiol cyn gwneud gwaith Gweinyddu Plwyf ac wedyn sefyll i gael ei hethol.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
2013 - 43ain Cynhadledd Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir 2013, Ynysoedd Falkland;
2007 Canghennau Bach a Chynhadledd Seneddol y Gymanwlad (India).

**Diddordebau:**
Cerddoriaeth, awyrennau sofietaidd, teclynnau a thechnoleg.

# Bywgraffiadau

## Jersey



**Yr Aelod Stephen George Luce**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Cadeirydd y panel craffu ar faterion economaidd; Aelod o Bwyllgor y Cadeiryddion; Aelod o'r panel craffu ar faes yr amgylchedd; Aelod o'r Panel Cynghori ynhghylch Deddfwriaeth.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2011

**Crynodeb gyrfa:**
Ffermwr a Thyfwr.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Dim, ond mae'n aelod o Bwyllgor Gweithredol Cangen Jersey.

**Diddordebau:**
Cychod, cerddoriaeth a chefn gwlad.

# Bywgraffiadau

## Jersey



**Yr Aelod Samuel Yves Mézec**

---

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2014

**Crynodeb gyrfa:**
Cyfrifydd / cynorthwyydd cyfreithiol – 2009-2013.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Dim ers yr etholiad, ond mynychodd Senedd Ieuenctid y Gymanwlad yn Llundain yn 2011.

**Diddordebau:**
Gwleidyddiaeth, hanes a cherddoriaeth metel trwm.

# Bywgraffiadau

## Jersey



**Yr Aelod Montfort Tadier**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Is-Gadeirydd y Pwyllgor Breintiau a Gweithdrefnau

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:** 2008

**Crynodeb gyrfa:**
Twristiaeth, cyfieithu, telegyfathrebu, addysgu.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
2012 - 23ain Seminar Cymdeithas y Gymanwlad, Samoa;
2010 - Seminar Cangen y DU, San Steffan.

**Diddordebau:**
Celf, cerddoriaeth, ffilm, teithio, ieithoedd a gwleidyddiaeth

# Bywgraffiadau

## Malta



**Yr Anrhydeddus Luciano Busuttil AS**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Cadeirydd y Pwyllgor Sefydlog dros Ystyried Biliau; Aelod o'r Pwyllgor Sefydlog ar Faterion Tramor ac Ewropeaidd.

**Blwyddyn yr etholwyd i'r Senedd gyntaf:** 2008

**Crynodeb o yrfa:**
Maer Hamrun; Cadeirydd Cyngor Chwaraeon Malta; Aelod Seneddol y Blaid Lafur (Grŵp Sosialaidd) o 2008 hyd heddiw.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau neu Weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad Llundain 2008.

**Diddordebau:**
Seryddiaeth, darllen, ffilmiau, paentio, celf a chwaraeon

# Bywgraffiadau

## Malta



**Mr John Vella**

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Clerc Cynorthwyol Tŷ'r Cynrychiolwyr;
Clerc y Pwyllgor Sefydlog ar Faterion Tramor ac Ewropeaidd.

**Crynodeb o yrfa:**
Ymunodd â'r Gwasanaeth Sifil ym 1977; Clerc Pwyllgor yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr: 1996-1998; Clerc Pwyllgor/Clerc Cynorthwyol y Tŷ: 2005 hyd heddiw.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau neu Weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Cynadleddau blynyddol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn Tanzania, Kenya, y DU a De Affrica; BIMR Ynysoedd Falkland; Seminar Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar weithdrefn seneddol (y DU).

**Diddordebau:**
Cysylltiadau rhyngwladol, chwaraeon a cherdded.

# Bywgraffiadau

## Malta



**Yr Anrhydeddus David Agius AS**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Chwip Grŵp Seneddol yr Wrthblaid; Gweinidog yr Wrthblaid dros Lywodraeth Leol; Aelod o Bwyllgor Busnes y Tŷ.

**Blwyddyn yr etholwyd i'r Senedd gyntaf:** 2003

**Crynodeb o yrfa:**
Cynghorydd - Cyngor Lleol Attard; Aelod Seneddol o 1996 hyd heddiw - y Blaid Genedlaethol (Grŵp EPP)

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau neu Weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Cynadleddau blynyddol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ym Malaysia, Tanzania, Kenya, y DU, Sri Lanca a De Affrica; BIMR yn Guernsey a'r Alban

**Diddordebau:**
Chwaraeon a darllen.

# Bywgraffiadau

## Malta



**Yr Anrhydeddus Joseph Fenech Adami AS**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Dirprwy Arweinydd y Blaid Genedlaethol (Grŵp EPP); Gweinidog yr Wrthblaid dros Gyfiawnder

**Blwyddyn yr etholwyd i'r Senedd gyntaf:** 2008

**Crynodeb o yrfa:**
Aelod Seneddol o 2008 hyd heddiw; Aelod o'r Pwyllgor Sefydlog ar Faterion Tramor ac Ewropeaidd 2008-2013.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau neu Weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Dyma gynhadledd gyntaf Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

**Diddordebau:**
Cysylltiadau rhyngwladol.

# Bywgraffiadau

## Malta



**Hon. Dr Charles Mangion MP**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Blwyddyn yr etholwyd i'r Senedd gyntaf:** 1987

**Crynodeb o yrfa:**

– Gweinidog Cyfiawnder a Llywodraeth Leol: 1996 - 1998;

– Dirprwy Lefarydd: 2003 - 2008;

– Arweinydd yr Wrthblaid – 2008;

– Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – 2003 - 2012.

**Diddordebau:**

Darllen a chwaraeon.

# Bywgraffiadau

## Gogledd Iwerddon



**Mr Jim Wells, Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod Pwyllgor: Y Pwyllgor Cyfiawnder;
Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd

**Blwyddyn yr etholwyd i'r Senedd gyntaf:** 1982.

**Crynodeb o yrfa:**
Roedd Jim yn Aelod Cynulliad dros etholaeth South Down i ddechrau, rhwng 1982 a 1986. Fe'i hail-etholwyd ym 1998, ac ar hyn o bryd mae ar ganol ei bedwerydd cyfnod, wedi iddo gael ei ail-ethol yn 2011.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau neu Weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**

Mae Jim wedi cwrdd â nifer o gynrychiolwyr o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar ymweliadau â Chynulliad Gogledd Iwerddon, ac wedi bod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol Cangen Gogledd Iwerddon am sawl blwyddyn.

# Bywgraffiadau

**Diddordebau:**
Mae gan Jim Wells radd mewn daearyddiaeth a diploma ôl-radd mewn cynllunio gwlad a thref o Brifysgol Queen's, Belfast.

Cafodd ei gyflogi fel rheolwr yn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol o 1989 ymlaen, cyn iddo ddychwelyd i faes gwleidyddiaeth rheng flaen ym 1998.

Mae Jim hefyd yn Ddirprwy Gadeirydd GrŴp Trawsbleidiol y Cynulliad ar Ddatblygu Rhyngwladol.

# Bywgraffiadau

## Gogledd Iwerddon



**Mrs Jo-Anne Dobson, Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Pwyllgor Cyfochrog y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a'r Pwyllgor Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd.

**Blwyddyn yr etholwyd i'r Senedd gyntaf:** 2011

**Crynodeb o yrfa:**
Mae Jo-Anne Dobson yn un o wleidyddion plaid Unoliaethwyr Ulster yng Ngogledd Iwerddon, a etholwyd fel Aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon yn 2011.

Astudiodd yn Academi Banbridge, ac mae ei meibion bellach yn astudio yn y Brifysgol. Mae'n weithgar mewn rolau elusennol ac yn y maes amgylcheddol ac amaethyddiaeth yn lleol.

Etholwyd Jo-Ann Dobson ar Gyngor Bwrdeistref Craigavon mewn is-etholiad yn 2010 - pan enillodd 64% o'r pleidleisiau.  Pan gafodd ei hethol yn Stormont yn 2012, rhoddodd y gorau i'w swydd ar y Cyngor.

# Bywgraffiadau

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau neu Weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**

Cynhadledd Flynyddol BIMR, Rhif 42, 2012;

Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad, Mawrth 2014.

**Diddordebau:**
Materion amgylcheddol ac amaethyddol. Rhoi organau.

# Bywgraffiadau

## Gogledd Iwerddon



**Mr Stewart Dickson MLA**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod o'r Pwyllgor Busnes, y Pwyllgor Datblygu Cymdeithasol, y Pwyllgor Cyfiawnder, y Pwyllgor Menter, Masnach a Diwydiant a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.  Prif Chwip Plaid y Gynghrair.

**Blwyddyn yr etholwyd i'r Senedd gyntaf:** 2011

**Crynodeb o yrfa:**
Aelod o Blaid y Gynghrair.  Etholwyd ef fel Aelod dros Ddwyrain Antrim yn 2011.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau neu Weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Cynhadledd Flynyddol BIMR, Rhif 42, 2012

**Diddordebau:**
Mae Stewart yn lleisio barn y bobl yn glir mewn cysylltiad â materion hawliau lles, cynllunio, yr amgylchedd, mannau agored, ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus well. Mae yn ymgyrchydd brwd iawn dros gyflwyno hawliau trydydd parti i apelio mewn cysylltiad â phenderfyniadau cynllunio. Mae'n arbennig o falch o'i gyfraniad i'r ymgyrch i ddiogelu'r llain las o amgylch Greenisland.

# Bywgraffiadau

## Gogledd Iwerddon



**Nicola Crawford**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Cyd-gysylltydd Ymgysylltu Seneddol

**Crynodeb o yrfa:**
Ymunodd â Chynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Ebrill 2002. Gweithiodd fel swyddog iechyd a diogelwch y Cynulliad am saith mlynedd, cyn iddi symud i'r swyddfa recriwtio. Ymunodd â'r swyddfa ymgysylltu yn 2010.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau neu Weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Hon yw Cynhadledd gyntaf Nicola.

# Bywgraffiadau

## Yr Alban



**Ms Margaret Mitchell MSP**

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod o Bwyllgor Gweithredol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn yr Alban; Aelod o'r Pwyllgor Cyfiawnder

**Y flwyddyn y cafodd ei hethol i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2003

**Crynodeb o'i gyrfa:**
Mae Margaret wedi gweithio fel athrawes, ynad heddwch a chyfarwyddwr anweithredol Ymddiriedolaeth GIG Stonehouse a Hairmyres. Cafodd ei hethol yn 2003 fel MSP Ceidwadol dros Ganolbarth yr Alban a chyn hynny bu'n gwasanaethu fel Cynullydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a Llefarydd Ceidwadwyr yr Alban dros Lywodraeth Leol ac, ar hyn bryd, hi yw Llefarydd Ceidwadwyr yr Alban dros Gyfiawnder.

# Bywgraffiadau

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y bu'n bresennol ynddynt:**

– 2013: ymweliad y Gymdeithas ag Ynysoedd Caiman;

– 2013: cynhadledd BIMR, Ynysoedd Falkland;

– 2012: cynhadledd BIMR.

**Diddordebau:**
Aelod o Bwyllgor Cyfiawnder y Senedd a'r Is-bwyllgor Plismona, Cynullydd y Grwpiau Trawsbleidiol ar oedolion a gafodd eu cam-drin yn rhywiol yn eu plentyndod, Dyslecsia, a'r Caribî, Cynullydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Taiwan.

# Bywgraffiadau

## Yr Alban



**Ms Sandra White MSP**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod o Bwyllgor Gweithredol Cangen Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn yr Alban; Aelod o'r Pwyllgor Cyfiawnder; Swyddog Cyswllt Seneddol Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder

**Y flwyddyn y cafodd ei hethol i'r Senedd am y tro cyntaf:** 1999

**Crynodeb o'i gyrfa:**
Mae Sandra wedi gwasanaethu ar nifer o bwyllgorau seneddol gan gynnwys y Pwyllgor Llywodraeth Leol ac Adfywio; Pwyllgor Deisebau'r Cyhoedd a'r Pwyllgor Archwilio.

Mae Sandra hefyd yn weithgar iawn mewn nifer o grwpiau trawsbleidiol yn Senedd yr Alban.

Mae hi'n gynullydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn - Oed a Heneiddio; hi yw cyd-gynullydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Balestina ynghyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Cuba ac mae'n aelod o'r Grŵp Trawsbleidiol ar ddiarfogi niwclear a Thibet.

Drwy gydol ei gyrfa wleidyddol Mae Sandra wedi dangos diddordeb brwd mewn cyfiawnder cymdeithasol, tlodi, cydraddoldeb a materion rhyngwladol.



# Bywgraffiadau

## Yr Alban



**Mr Tavish Scott MSP**

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol yr Alban dros Drafnidiaeth, Materion Gwledig, Pysgodfeydd, yr Amgylchedd a Chwaraeon; Aelod o Bwyllgor Gweithredol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn yr Alban.

**Y flwyddyn y cafodd ei ethol i'r Senedd am y tro cyntaf:** 1999

**Crynodeb o'i yrfa:**
Ganed Tavish Scott yn 1966 yn Inverness, a bu'n ddisgybl yn ysgol uwchradd Anderson, Lerwick, Shetland cyn mynd i Goleg Napier, Caeredin, lle enillodd BA (Anrh) mewn Astudiaethau Busnes.

Ar ôl graddio ym 1989, gweithiodd Tavish Scott i Jim Wallace AS yn Nhŷ'r Cyffredin. Yna, yn 1990, cafodd swydd gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gweithio fel swyddog y wasg dros yr Alban, cyn dychwelyd i Shetland i redeg fferm y teulu.

Rhwng 1994 a 1999 roedd Tavish Scott yn un o gynghorwyr yr ynysoedd yn cynrychioli ward Harbwr Lerwick a Bressay ar Gyngor Ynysoedd Shetland. Bu'n is-gadeirydd y Pwyllgor Ffyrdd a Thrafnidiaeth, yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Harbwr Lerwick ac yn aelod o Fwrdd Twristiaeth Ynysoedd Shetland.

# Bywgraffiadau

Yn 1999, etholwyd Tavish Scott yn Aelod Senedd yr Alban dros Shetland a chafodd ei ethol drachefn yn 2003, 2007 a 2011. Mae wedi gwasanaethu fel Dirprwy Weinidog y Senedd (2000-2001), y Dirprwy Weinidog Cyllid, Gwasanaethau Cyhoeddus a Busnes Seneddol (2003-2005) ac ymunodd â Chabinet yr Alban yn 2005 pan gafodd ei benodi'n Weinidog Trafnidiaeth.

Tavish Scott oedd Ysgrifennydd Cyllid a Thwf Cynaliadwy yr Wrthblaid dros y Democratiaid Rhyddfrydol ac ef hefyd oedd Cynullydd Pwyllgor Economi, Ynni a Thwristiaeth Senedd yr Alban (2007-8).

Etholwyd Tavish Scott yn Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol yr Alban (2008-11). Ef yw Llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol yr Alban dros Drafnidiaeth, Materion Gwledig, Pysgodfeydd, yr Amgylchedd a Chwaraeon. Mae'n aelod o Bwyllgor Archwilio Cyhoeddus Senedd yr Alban, Pwyllgor y Refferendwm, yn aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad ac ef sy'n cynnull y grŵp trawsbleidiol ar golff.

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y bu'n bresennol ynddynt:** 58fed Cynhadledd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad Seneddol yn Sri Lanka, 2012.

# Bywgraffiadau

## Yr Alban



**Mrs Margaret Neal**

---

**Crynodeb o'i gyrfa:**
Ymunodd â hen Swyddfa'r Alban yn 1973 a chafodd amrywiol swyddi ym maes iechyd, llywodraeth leol ac adrannau ymchwil cymdeithasol. Cafodd secondiad i weithio yn Senedd yr Alban ym 1998, a dechreuodd ar ei swydd fel Ysgrifennydd y Grŵp Llywio Diogelwch. Dechreuodd weithio ym maes cysylltiadau rhyngwladol ym mis Hydref 2000 ac mae'n gwasanaethu fel Swyddog Cysylltiadau Seneddol ac Ysgrifennydd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn yr Alban ers 2006.

**Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y bu'n bresennol ynddynt:**
Cynadleddau Rhanbarthol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ers 2001. Aeth i gynhadledd flynyddol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn India yn 2007 ac yn Sri Lanka yn 2012. Aeth gyda dirprwyaeth drawsbleidiol o gangen yr Alban o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad i ddeddfwrfeydd yn Canberra, Eastern Cape, Gauteng, Malawi, Seland Newydd, Nova Scotia, Ontario, PEI, Quebec, Victoria a Gorllewin Awstralia.

Trefnodd 19eg Seminar Seneddol y Gymanwlad yng Nghaeredin ym mis Hydref 2007 a chynhadledd BIMRCWP yng Nghaeredin yn 2014.

**Diddordebau:**
Teulu, darllen, datblygu rhyngwladol.

# Bywgraffiadau

## St Helena



**Yr Anrhydeddus Leslie Paul Baldwin, Aelod o'r Cyngor Deddfwriaethol**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod o'r Cyngor Deddfwriaethol a'r Cyngor Gweithredol;
Cadeirydd y Pwyllgor Cymdeithasol a Datblygu Cymuned;
Cadeirydd y Grŵp Cyllid a Chynllunio;
Aelod o'r Grŵp Diwygio Trethi;
Aelod o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd;
Cadeirydd y Pwyllgor Hawliau Dynol a Datblygu Gallu.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2013

**Crynodeb gyrfa:**
2012 – 2013 Rheolwr Cyllid, Solomon & Co PLC;
2001 – 2012 Rheolwr Gweinyddol a Chyffredinol, Cwmni Cydweithredol Pysgodfeydd St. Helena.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Hon yw ei gynhadledd gyntaf.

**Diddordebau:**
Ysgrifennydd a chynhyrchydd gyda gorsaf radio Saint FM. Criced, pêl-droed, pysgota a phlymio.

# Bywgraffiadau

## Y Deyrnas Unedig



**Mr Thomas Docherty AS**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Gweinidog yr wrthblaid dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (EFRA).

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2010

**Crynodeb gyrfa:**
Gweinidog yr wrthblaid dros EFRA Hydref 2010 – presennol; Ysgrifennydd Seneddol Preifat Arweinydd yr Wrthblaid yn Nhŷ'r Cyffredin Hydref 2011-2013; Dirprwy Arweinydd Dros Dro'r Wrthblaid yn Nhŷ'r Cyffredin Mawrth- Awst 2013, Ysgrifennydd Seneddol Preifat Prif Ysgrifennydd Trysorlys yr Wrthblaid Hydref 2010-2011. Aelod o Weithrediaeth Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn y DU. Aelod o Bwyllgorau Dethol Tŷ'r Cyffredin: Gweinyddu Gorffennaf 2010 – presennol; Pwyllgor EFRA Gorffennaf 2010-Ebrill 2013; Pwyllgor Amddiffyn Hydref 2010-Tach 2013; Gweithdrefnau Ebrill 2011-presennol.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**

Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad 2011 (Llundain), BIMR 2012 (Caeredin); 2013 (Ynysoedd y Falklands), sylwedydd etholiadau BVI Tach 2011, TCI Tach 2012.

**Diddordebau:**
Materion tramor, amddiffyn.

# Bywgraffiadau

## Y Deyrnas Unedig



**Mr Stephen Doughty AS**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod Seneddol dros Dde Caerdydd a Phenarth a Chwip yr Wrthblaid.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2012

**Crynodeb gyrfa:**
Cyn cael ei ethol i'r Senedd mewn is-etholiad yn 2012, bu Stephen yn gweithio am dros saith mlynedd mewn amrywiaeth o rolau ymgyrchu mewn elusennau rhyngwladol gan gynnwys World Vision ac Oxfam, a bu hefyd yn gweithio ar ymgyrch y dreth Robin Hood a Rhown Derfyn ar Dlodi.

Fel uwch ymgynghorydd polisi ar dlodi, datblygu, masnach a materion dyngarol i'r Gwir Anrhydeddus Douglas Alexander AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddatblygu Rhyngwladol yn y Llywodraeth Lafur ddiwethaf - cyfrannodd Stephen at yr ymdrechion i ymateb i drychinebau rhyngwladol fel y daeargryn yn Haiti, i hybu cynlluniau i roi gofal iechyd ac addysg am ddim i rai o bobl dlotaf y byd, ac i fynd i'r afael â rhai o broblemau byd-eang fel y newid yn yr hinsawdd.

Gweithiodd Stephen hefyd fel gweithiwr achos etholaethol – yn ymwneud yn uniongyrchol â phryderon pobl leol yn y De, a gweithiodd gyda chyn Aelod Cynulliad De Caerdydd a Phenarth, Lorraine Barrett.

# Bywgraffiadau

## Y Deyrnas Unedig



**Ms Jessica Morden AS**

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod Seneddol dros Ddwyrain Casnewydd; Ysgrifennydd Preifat Seneddol Owen Smith AS.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2005

**Crynodeb gyrfa:**
Jessica yw Ysgrifennydd Preifat Seneddol Owen Smith AS, Ysgrifennydd Gwladol yr Wrthblaid dros Gymru. Hi oedd Ysgrifennydd Preifat Seneddol y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru tan fis Mai 2010.

Mae Jessica yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cymreig (sy'n ymchwilio i Fil Drafft Cymru ar hyn o bryd), hi yw Cadeirydd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol dros y Diwydiant Dur a Diwydiannau Eraill Cysylltiedig â Metelau, Cadeirydd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol dros Blant yng Nghymru ac mae'n aelod o'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol dros Atal Hunanladdiad.

# Bywgraffiadau

Yn ystod ei thymor cyntaf, llwyddodd Jessica i gwblhau Cynllun Seneddol yr Heddlu gan dreulio mis yn ystod y toriad mewn amrywiol adrannau ac yn cydweithio â swyddogion rheng flaen Heddlu Gwent.

Fe'i penodwyd hefyd gan y Llefarydd yn aelod o Bwyllgor Cynghorol yr Aelodau i oruchwylio'r gwaith o sefydlu'r feithrinfa gyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin.

**Diddordebau:**
Ymddygiad gwrthgymdeithasol, materion etholiadol, yr heddlu, plant, y diwydiant dur.

# Bywgraffiadau

## Y Deyrnas Unedig



**Mr Mark Pritchard AS**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod Seneddol Wrekin.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2005

**Crynodeb gyrfa:**
Cyn cael ei ethol i'r Senedd, roedd Mark yn gyfarwyddwr cwmni cyfathrebu marchnata.
Ar hyn o bryd, mae Mark yn aelod o Banel y Cadeiryddion, Cyd-bwyllgor y Strategaeth Diogelwch Cenedlaethol a bu hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Datblygu Rhyngwladol, y Pwyllgor Trafnidiaeth, y Pwyllgor Gwaith a Phensiynau, y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol a'r Pwyllgor Materion Cymreig.

Mae Mark hefyd wedi hyrwyddo materion lles anifeiliaid. Cafodd ei enwebu'n Aelod Seneddol y Flwyddyn (2009) am ei waith ym maes lles anifeiliaid. Mae wedi cyflwyno tri Bil preifat yn ymwneud â lles anifeiliaid.

**Diddordebau:**
Amddiffyn, materion tramor, gwrthderfysgaeth, seiberddiogelwch, lles anifeiliaid.

# Bywgraffiadau

## Y Deyrnas Unedig



**Miss Victoria Bower**

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Rheolwr Gweithrediadau a Chyfathrebu Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn y DU.



# Bywgraffiadau

## Cymru



**Mr Al Davies**

---

**Crynodeb gyrfa:**
2013 – hyd heddiw: Rheolwr y Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol.
2008 – hyd heddiw: Ysgrifennydd Dros Dro Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.
2006 – 2008: Rheolwr Tîm Gwasanaethau i Ymwelwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
2004 – 2008: Llywodraeth Cymru – Swyddog Polisi y Gymraeg.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Cynadleddau Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir
2013 – Ynysoedd Falkland; 2012 – Yr Alban; 2010 – Ynys Manaw; 2009 – Guernsey.
Cynadleddau Seneddol y Gymanwlad:
2013 – Johannesburg, De Affrica; 2010 – Nairobi, Kenya.

**Diddordebau:**
Cysylltiadau Rhyngwladol, Teithio, Beicio, Golff, Ffilm, Chwarae'r Gitâr a Choginio.

# Bywgraffiadau

## Cymru



**Mr Mohammad Asghar AC/AM**

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod Cynulliad dros Ddwyrain De Cymru.

**Etholwyd i'r Cynulliad am y tro cyntaf:** 2007
Crynodeb gyrfa: Cafodd ei eni yn Peshawar, cwblhaodd ei radd BA mewn Gwyddoniaeth Wleidyddol ym Mhrifysgol Peshawar cyn symud i Gymru i ddilyn cwrs cyfrifeg yng Nghasnewydd. Mae'n beilot cymwysedig ac yn gyn-gynghorydd Dinas Casnewydd, ac roedd yn ymgeisydd yn etholiad y Cynulliad yn 2003 a'r Etholiad Cyffredinol yn 2005. Yn 2007, ef oedd yr Aelod cyntaf o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiafrif ethnig.

Mae Mohammad wedi bod yn aelod o'r Siambr Fasnach, y Siambr Fasnach y DU–Pacistan, y Gymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu a'r AFA, ac mae hefyd yn aelod o Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Cyhoeddus.

# Bywgraffiadau

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Cynadleddau Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir
2010 – Ynys Manaw.
Cynadleddau Seneddol y Gymanwlad:
2007 – New Delhi, India; 2011 – Llundain, y DU.

**Diddordebau:**
Mae diddordebau gwleidyddol Mohammad yn cynnwys datblygu economaidd a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol. Mae'n Noddwr Life Map Planners, yr elusen sydd wedi ymrwymo i gynnig gwasanaethau i blant a phobl ifanc o gymunedau difreintiedig ledled Cymru drwy gynnal prosiectau arloesol ar draws meysydd addysg, cyflogaeth, iechyd meddwl, materion yn ymwneud ag ieuenctid a materion cymdeithasol. Mae Oscar yn hoff iawn o chwaraeon, yn enwedig criced

# Bywgraffiadau

## Cymru



**Mr Simon Thomas AC/AM**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Cafodd ei benodi i ddarpar gabinet pum-aelod Plaid Cymru ym mis Ionawr 2014 fel Gweinidog yr Wrthblaid dros Addysg, Sgiliau a'r Gymraeg.
Mae'n aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.
Mae'n aelod o Grwpiau Trawsbleidiol y Cynulliad Cenedlaethol ar: asbestos, bioamrywiaeth, mentrau cydweithredol a chydfuddiannol, y Gymraeg, tlodi tanwydd, gwyddoniaeth a thechnoleg, Morglawdd Hafren ac ynni'r llanw.

**Etholwyd i'r Cynulliad am y tro cyntaf:** 2011

# Bywgraffiadau

**Crynodeb gyrfa:**
Curadur Cynorthwyol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (1986-92);
Swyddog Polisi ac Ymchwil, Cyngor Bwrdeistref Taf–Elái (1992-94);
Swyddog Datblygu (94-97); Rheolwr, Jigso, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (1997-2000); Aelod Seneddol (Plaid Cymru) Ceredigion (Chwefror 2000-2005);
Uwch Ymgynghorydd Arbennig i'r Dirprwy Brif Weinidog, Llywodraeth Cymru'n Un (2007-2011).
Rhestr o gynadleddau, seminarau, ymweliadau neu weithdai Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y mae wedi bod iddynt:
42ain Cynhadledd yr Ynysoedd Prydeinig a Rhanbarth Môr y Canoldir, Caeredin 2012; Cynadleddau Seneddol y Gymanwlad – Johannesburg, De Affrica, Medi 2013.

**Diddordebau:**
Diddordebau gwleidyddol: yr amgylchedd, bwyd a materion gwledig, trafnidiaeth, datblygu rhyngwladol, ynni a diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon.

Diddordebau cyffredinol: cerdded, darllen a bywyd teuluol.

# Bywgraffiadau

## Cymru



**Mr William Powell AC/AM**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod Cynulliad dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru

**Etholwyd i'r Cynulliad am y tro cyntaf:** 2011

**Crynodeb gyrfa:**
William Powell AC yw Llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar Ynni, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.
Ef yw Cadeirydd Pwyllgor Deisebau y Cynulliad ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Yn ychwanegol at y rolau hyn, William yw Cadeirydd Grŵp Trawsbleidiol y Cynulliad ar Ewrop.
Cyn cael ei ethol i'r Cynulliad, roedd William yn athro ieithoedd ac yn aelod gweithgar o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae'n parhau i fyw o fewn ffiniau'r parc.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
Ottawa 2011.

**Diddordebau:**
Yr Undeb Ewropeaidd, ffermio, ieithoedd a chynllunio.



# Arsyllwyr Rhyngwladol

# Arsyllwyr Rhyngwladol

## Awstralia



**Yr Anrhydeddus Robyn Lambley, Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod dros Araluen, Alice Springs.
Gweinidog Iechyd, Adsefydliad Alcohol a Gwasanaethau Anabledd yn Llywodraeth Gwlad Ryddfrydol y Diriogaeth Ogleddol.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2010

**Crynodeb gyrfa:**
Cyn mynd i'r senedd, dilynodd Mrs Lambley yrfa lewyrchus fel Gweithiwr yn y Proffesiynau Perthynol i Iechyd. Etholwyd hi i gyngor tref Alice Springs yn 2004, gan gynnwys cyfnod fel Dirprwy Faer Alice Springs.
Ganwyd Mrs Lambley yn Grafton, De Cymru Newydd, a graddiodd gyda Bagloriaeth mewn Gwaith Cymdeithasol o Brifysgol Queensland ym 1986, a chwblhaodd gwrs Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol ym 1998.
Mae hi wedi arbenigo ym maes gwasanaethau Iechyd Meddwl, gan ddal swyddi amrywiol yn Queensland, De Cymru Newydd ac yn y Deyrnas Gyfunol.

**Diddordebau:**
Mae gan Mrs Lambley ddiddordeb brwd yn ei theulu, a'r gymuned fywiog yn Alice Springs, ac mae'n mwynhau rhedeg, a bwyd a gwin da.

# Arsyllwyr Rhyngwladol

## Awstralia



**Dr Antonio De Paulo Buti, Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod dros Armadale
Ysgrifennydd Seneddol i Arweinydd yr Wrthblaid;
Ysgrifennydd Seneddol yr Wrthblaid dros Addysg a Materion Aml-ddiwylliannol.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2010

**Crynodeb gyrfa:**
Athro, Cyfreithiwr, Academydd (Proffesiwn y Gyfraith), Awdur.

**Diddordebau:**
Addysg, Diwygio'r Gyfraith, Polisi Iechyd Cyhoeddus, Materion Brodorol

# Arsyllwyr Rhyngwladol

## Canada



**Mr Delbert Kirsch MLA**

---

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**

Cadeirydd – Y Pwyllgor Sefydlog ar Wasanaethau Dynol;

Cadeirydd – Pwyllgor Polisi Cawcws ar Wasanaethau Dynol;

Aelod – Pwyllgor Sefydlog ar Freintiau.

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2003

**Crynodeb gyrfa:**

Etholwyd Delbert am y tro cyntaf yn etholiad taleithiol 2003 a chafodd ei ail-ethol yn 2007 a 2011. Yn ystod ei dymor yn yr wrthblaid, bu'n feirniad dros Goedwigaeth ac yn ddirprwy feirniad dros Faterion Gogleddol a Diwydiant a Masnach. Bu hefyd yn Ddirprwy Gadeirydd Pwyllgor Sefydlog y ddeddfwrfa ar yr Economi.

Ar ôl ffurfio llywodraeth y Blaid Saskatchewan ym mis Tachwedd 2007, bu Delbert yn Gadeirydd Pwyllgor Sefydlog y ddeddfwrfa ar Faterion Rhynglywodraethol a Chyfiawnder. Fe'i penodwyd yn Ysgrifennydd Deddfwriaethol i'r Pennaeth - menter Treftadaeth Saskatchewan ac yn Ysgrifennydd Deddfwriaethol i'r Gweinidog Cywiriadau, Diogelwch y Cyhoedd a Phlismona.

# Arsyllwyr Rhyngwladol

Bu Delbert hefyd yn aelod o Bwyllgor Sefydlog y ddeddfwrfa ar Faterion Rhynglywodraethol a Chyfiawnder ac o'r Pwyllgor Sefydlog ar Wasanaethau'r Tŷ. Bu'n aelod o bwyllgor polisi sefydlog cawcws ar faterion rhynglywodraethol a chyfiawnder. Bu'n gadeirydd Pwyllgor Sefydlog y ddeddfwrfa ar Filiau Preifat a'r Pwyllgor Sefydlog ar Asiantaethau'r Goron ac Asiantaethau Canolog. Bu hefyd yn Ddirprwy Arweinydd Tŷ'r Llywodraeth.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**
43ain Cynhadledd Ranbarthol Canada – St. John's, Newfoundland;

34ain Seminar Seneddol Rhanbarth Canada o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad – Edmonton, Alberta.

**Diddordebau:**
Hanes, hen greiriau, prynu a gwerthu mewn ocsiwn, llyfrau, pêl-droed Canada ac America, treulio amser gyda'i deulu.

# Arsyllwyr Rhyngwladol

## Y Caribî



**Yr Anrhydeddus Juliana O'Connor-Connolly, Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol**

**Swydd neu Bortffolio Seneddol presennol:**
Aelod - Pwyllgor Gweithredol Ynysoedd y Caribî, America a Gwledydd Rhanbarth yr Iwerydd.

**Etholwyr i'r Senedd am y tro cyntaf**: 1996.

**Crynodeb gyrfa:**

– Y fenyw gyntaf i gael ei hethol fel Aelod ar gyfer Rhanbarth Cayman Brac ac Ynys Fach y Cayman

– Yr Aelod benywaidd gyntaf i gael ei hethol fel aelod o'r Cabinet.

– Yr Aelod benywaidd gyntaf i wasanaethu fel Llefarydd y Tŷ.

– Yr Aelod benywaidd gyntaf i wasanaethu fel Pennaeth a Dirprwy Bennaeth.

– Gweinidog dros Faterion Cymunedol, Chwaraeon, Menywod, Ieuenctid a Diwylliant - 1997 - 2000.

– Llefarydd y Cynulliad Deddfwriaethol - Tachwedd 2001 - Hydref 2003.

– Gweinidog dros Gynllunio, Cyfathrebu, Gweinyddiaeth Ranbarthol a Thechnoleg Gwybodaeth - Rhagfyr 2003 - Mai 2005.

# Arsyllwyr Rhyngwladol

- Gweinidog dros Weinyddiaeth Ranbarthol, Gweithfeydd, Tiroedd ac Amaethyddiaeth - Mai 2005 - Rhagfyr 2012.
- Gweinidog dros Gyllid, Gweinyddiaeth Ranbarthol, Gweithfeydd, Tiroedd ac Amaethyddiaeth - Rhagfyr 2012 - Mai 2013.
- Tachwedd 2009, fe'i penodwyd yn Ddirprwy Bennaeth cyntaf Ynysoedd y Cayman.
- Rhagfyr 2012, fe'i penodwyd yn Bennaeth benywaidd cyntaf.
- Mai 2013, fe'i penodwyd yn Llefarydd Cynulliad Deddfwriaethol Ynysoedd y Cayman.

**Rhestr o Gynadleddau, Seminarau, Ymweliadau a Gweithdai eraill Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a fynychwyd:**

- Cynhadledd Ranbarthol 1af Seneddwragedd y Gymanwlad - Nassau, y Bahamas, Ebrill 2006.
- Seminar Cangen y DG o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, y DG, 2007 Seminar Cangen y DG o'r CPA ar Arferion a Gweithdrefnau Seneddol, yn San Steffan, Mawrth 2008.
- Cynhadledd Seneddol Gyffredinol y Gymanwlad, Rhif 56, Nairobi, Kenya, Medi 2010.

# Arsyllwyr Rhyngwladol

- Cynhadledd Garibïaidd, America a Rhanbarth yr Iwerydd o'r CPA, Rhif 36, San Sior, Grenada, Mehefin/Gorffennaf 2011.
- Cynhadledd a Chynulliad Seneddol Cyffredinol y Gymanwlad, Rhif 57, Llundain, y Deyrnas Gyfunol, Gorffennaf 2011.
- Cynhadledd Garibïaidd, America a Rhanbarth yr Iwerydd, Rhif 37 Kingston, Jamaica, Mai 2012.
- 58fed Gynhadledd Seneddol y Gymanwlad Colombo, Sri Lanca, Medi 2012.
- Cynhadledd Garibïaidd, America a Rhanbarth yr Iwerydd, Rhif 38 Antigua, Gorffennaf/ Awst 2013.
- Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad Johannesburg, De Affrica, 28 Awst – 5 Medi 2013
- Cynhadledd Llefarwyr a Llywyddion y Gymanwlad, Rhif 22, Seland Newydd, Ionawr 2014.

**Diddordebau:**
Darllen, coginio, ffermio, cwrdd â phobl a dysgu am ddiwylliannau newydd.



# Arsyllwyr Rhyngwladol

## Affrica



**Yr Anrhydeddus Euthalie Nyirabega AS**

---

**Etholwyd i'r Senedd am y tro cyntaf:** 2008

**Crynodeb gyrfa:**
Aelod cyfredol o Senedd Rwanda.
Bu'n ddarlithydd ym Mhrifysgol Genedlaethol Rwanda rhwng 1999 a 2008.
Bu'n Llywydd Cyngor Dosbarth Nyanza rhwng 2006 a 2008.

**Diddordebau:**
Addysg.



# Siaradwyr y Gynhadledd

# Siaradwyr y Gynhadledd




**Yr Athro Laura McAllister**

Mae Laura McAllister yn Athro Llywodraethu yn Ysgol Reoli Prifysgol Lerpwl. Cafodd ei haddysg yn Ysgol Gyfun Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr a graddiodd o Ysgol Economeg Llundain a Phrifysgol Caerdydd, lle cwblhaodd PhD mewn gwleidyddiaeth. Roedd Laura yn aelod o Gomisiwn Richard ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyflwynodd adroddiad ym mis Mawrth 2004, ac roedd yn gynghorydd i Adolygiad Annibynnol Syr Roger Jones o Gyflogau a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad yn 2008-9. Mae'n Athro Ymweld er Anrhydedd ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Technoleg Queensland yn Brisbane, Awstralia ac Ysgol Weinyddiaeth Genedlaethol Tsieina yn Beijing.

Mae'n gyn-chwaraewr rhyngwladol ac yn gyn-gapten tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru sydd wedi ennill 24 o gapiau, ac mae Laura yn Gadeirydd Chwaraeon Cymru (Cyngor Chwaraeon Cymru gynt). Mae hi'n Aelod o Fwrdd UK Sport, sef asiantaeth y Llywodraeth ar gyfer chwaraeon Olympaidd a Pharalympaidd, ac yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru. Mae'n noddwr prosiect ar gyfer chwaraeon ym Mhrifysgol Lerpwl ac yn gadeirydd Grŵp Strategaeth Chwaraeon Lerpwl. Mae'n un o Ymddiriedolwyr Stonewall UK a'r Sefydliad Materion Cymreig, yn ogystal â bod yn aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru y Cyngor Prydeinig. Mae gan Laura raddau anrhydedd o Brifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Morgannwg.

# Siaradwyr y Gynhadledd



**Steve Brooks**

Steve Brooks yw cyfarwyddwr y Gymdeithas Diwygio Etholiadol yng Nghymru, ac mae'n un o brif bartneriaid yr ymgyrch 'Counting Women In' yng Nghymru, sy'n gynghrair o bum sefydliad ymgyrchu blaenllaw sy'n bleidiol dros ddemocratiaeth a hawliau menywod.

Yn flaenorol roedd Steve yn Bennaeth Oxfam Cymru ac yn Bennaeth Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru, lle bu'n arwain ymgyrchoedd a gwaith polisi ar effaith newid yn yr hinsawdd ar fenywod, a'r angen i lywodraeth ddefnyddio dull mwy unigol o ran y rhywiau fel rhan o'r ymdrech i geisio rhoi terfyn ar dlodi.

Yn gyn Lywydd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru, gweithiodd Steve yn agos ag Ymgyrch Menywod yr NUS i amddiffyn sefyllfa swyddogion amser llawn sy'n fenywod, ar hyd a lled Cymru. Ac yntau'n aelod o grŵp llywio prosiect Merched yn Gwneud Gwahaniaeth, mae Steve hefyd yn un o ymddiriedolwyr Sefydliad Bevan, a bydd yn Trydaru fel **@stephenbrookUK** a **@ERS_Cymru.**

# Siaradwyr y Gynhadledd



**Rhodri Glyn Thomas AC**

Ganwyd Rhodri Glyn Thomas yn Wrecsam ym 1953. Aeth i Brifysgol Cymru Aberystwyth, Bangor a Llanbedr Pont Steffan. Mae yn Weinidog yr Efengyl ac yn gyfarwyddwr cwmni hefyd. Mae'n rhugl yn y Gymraeg.

Cafodd Rhodri Glyn ei ethol i'r Cynulliad am y tro cyntaf ym mis Mai 1999. Mae ei ddiddordebau gwleidyddol yn cynnwys amaethyddiaeth a'r economi wledig, Ewrop, materion cymdeithasol a thrafnidiaeth.

Pan aeth Plaid Cymru i lywodraeth glymblaid â Llafur ym mis Gorffennaf 2007, penodwyd Rhodri Glyn yn Weinidog dros Dreftadaeth, ond ymddiswyddodd yn 2008. Mae wedi gwasanaethu fel Cadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, fel Aelod o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, a'r Pwyllgor Cynaliadwyedd. Ef yw llefarydd Plaid Cymru ym maes Lywodraeth Leol, Cymunedau ac Ewrop erbyn hyn.

Mae Rhodri Glyn yn cynrychioli Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, yr Undeb Ewropeaidd. Yn ddiweddar, arweiniodd drafodaethau'r Pwyllgor â'r Comisiwn Ewropeaidd, ar sail ei adroddiad ar y synergedd rhwng cyllidebau cenedlaethol a chyllidebau is-wladwriaethau. Cyflwynodd ei adroddiad yn Gymraeg, sy'n rhywbeth newydd i'r Pwyllgor Ewropeaidd.

# Siaradwyr y Gynhadledd



**Yr Athro Diarmait Mac Giolla Chríost**

Mae'r Athro Diarmait Mac Giolla Chríost yn aelod o Uned Ymchwil yr Ysgol ar Iaith, Polisi a Chynllunio. Mae yn frodor o Iwerddon ac yn awdurdod ar leiafrifoedd ieithyddol a chynllunio ieithyddol. Mae ei ddiddordebau ymchwil eraill yn cwmpasu nifer o feysydd, gan gynnwys natur y berthynas rhwng iaith a gwrthdaro, o berspectif cymharol, Ewropeaidd, ac, yn ogystal, iaith yng nghyd-destun y ddinas, a hynny o berspectif cymharol a rhyngwladol. Mae ganddo nifer o gyhoeddiadau ym mesydd y gwyddorau cymdeithasol, daearyddiaeth a chymdeithaseg iaith. Mae'n Gymrawd o'r Gymdeithas Ddaearyddiaeth Frenhinol ac yn Gymrawd o'r Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol.

# Siaradwyr y Gynhadledd



**Meri Huws**

Sefydlwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg  gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dechreuodd Meri Huws fel y Comisiynydd cyntaf ar 1 Ebrill 2012.

Cyn ei phenodi yn Gomisiynydd, bu Ms Huws yn Gadeirydd ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2004-2011, a hefyd yn aelod o'r bwrdd o 1993 hyd 1997.

Derbyniodd ei haddysg yn Ysgol Uwchradd Abergwaun, cyn astudio gradd mewn Cyfraith a Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Astudiodd am radd uwch yng Ngholeg y Santes Ann, Rhydychen, a hyfforddi i fod yn  weithwraig gymdeithasol, gan weithio yn y maes am sawl blwyddyn yng ngogledd orllewin Cymru. Aeth ati i ddilyn gyrfa ym myd addysg uwch yn yr 80au a 90au - bu'n darlithio yng Ngholeg Normal, Bangor, a Phrifysgol Casnewydd cyn mynd ati i weithio am gyfnod yn Swyddfa Academaidd Prifysgol Dinas Dulyn. Bu Ms Huws hefyd yn gadeirydd ar Gymdeithas yr Iaith Gymraeg rhwng 1981-1983.

Ym 1999 symudodd i weithio i Brifysgol Bangor fel Dirprwy Is-ganghellor, a bu yn y swydd am ddeng mlynedd. Fe'i phenodwyd yn Ddirprwy Is-ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn 2009, cyn cael ei phenodi'n Gomisiynydd y Gymraeg yn 2012. Mae Ms Huws yn wyneb adnabyddus ym mywyd cyhoeddus Cymru.  Yn aml mae'n cael ei gwahodd i roi tystiolaeth i bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i annerch cynadleddau a chyfarfodydd cyhoeddus ledled y wlad, ac i siarad ar raglenni newyddion a materion cyfoes.

# Siaradwyr y Gynhadledd



**Kyle Thornton**

Mae Kyle Thornton yn 19 oed a gafodd ei ethol yn Gadeirydd Senedd Ieuenctid yr Alban ym mis Mehefin 2013. Mae Kyle yn astudio Gwleidyddiaeth ac Astudiaethau Canol a Dwyrain Ewrop ym Mhrifysgol Glasgow. Hefyd, mae'n Is-gadeirydd (Cyllid) ar fwrdd Cyngor Ieuenctid Prydain ac yn Gadeirydd Cyngor Ieuenctid Glasgow. Mae Kyle wedi bod yn Aelod etholedig o Senedd Ieuenctid yr Alban ar gyfer Glasgow Southside er 2011. Mae gan Kyle nifer o ddiddordebau polisi gan gynnwys gwneud democratiaeth yn fwy lleol ac atebol, iechyd a lles, grymuso cymunedau, a'r economi. Pan nad yw ym myd gwleidyddiaeth, mae Kyle yn mwynhau pobi, tenis a darllen.

# Siaradwyr y Gynhadledd



**Ciara Berry**

Mae Ciara ym mlwyddyn 13 yn Ysgol Gyfun Radyr lle mae'n astudio Ffrangeg, Llenyddiaeth Saesneg a Hanes Safon Uwch. Mae wedi cael cynnig i astudio'r Gyfraith yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt.

Mae wedi bod yn siarad yn gyhoeddus ers y llynedd, a daeth yn ail ym mhencampwriaethau ysgolion Cymru. Mae hefyd yn aelod o dîm Cymru ar gyfer Pencampwriaethau Siarad Cyhoeddus Ysgolion y Byd, ac mae newydd ddychwelyd o gystadleuaeth siarad cyhoeddus menywod Rhydychen, lle bu'n cystadlu yn erbyn myfyrwyr y brifysgol.

Mae Ciara hefyd yn mwynhau croesbwyth, chwarae'r clarinét a hwylio.



**James Jones**


Mae James yn fyfyriwr chweched dosbarth yn Ysgol Dyffryn Aman ble mae'n astudio Ffrangeg, Almaeneg, Cymdeithaseg a Llywodraeth a Gwleidyddiaeth. Mae James yn cyfrannu at sawl agwedd ar fywyd yr ysgol, ac yn gynharach eleni cafodd ei ethol yn ddirprwy gapten ysgol. Mae gan James lawer o ddiddordebau y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys bod yn frwd am ddysgu ieithoedd. Mae wedi dysgu Ffrangeg ac Almaeneg ac mae'n dechrau astudio Japaneg a Tsieinëeg. Hoffai James fynd i'r brifysgol y flwyddyn nesaf i astudio ieithoedd modern.

# Siaradwyr y Gynhadledd



**Jack Vaughan**

Ar hyn o bryd mae Jack ym Mlwyddyn 12 yn Ysgol Dyffryn Aman ble mae'n astudio Mathemateg, Ffiseg, Cemeg a Bioleg. Cafodd Jack ei ethol yn gapten ysgol yn gynharach eleni ac mae wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau'r ysgol. Y tu allan i'r ysgol mae Jack yn aelod o'r Corfflu Hyfforddiant Awyr. Fel cefnogwr brwd o Queens Park Rangers, mae Jack yn mwynhau gwylio a chwarae pêl-droed. Yn y dyfodol, mae Jack yn gobeithio astudio Ffiseg a Mathemateg yn y brifysgol.




**Rhys Steele**


Mae Rhys ar hyn o bryd ym mlwyddyn 13 yn Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf, lle mae'n astudio Mathemateg Bellach a Ffiseg Safon Uwch. Mae'n gobeithio parhau i astudio Mathemateg ar lefel gradd ym Mhrifysgol Rhydychen y flwyddyn nesaf.

Mae wedi bod yn cystadlu mewn cystadlaethau siarad cyhoeddus ers bron i bedair blynedd ac mae wedi llwyddo i ennill pencampwriaethau siarad cyhoeddus ysgolion Cymru ddwywaith.  Mae'n aelod o dîm Cymru ar hyn o bryd.
Yn ei amser rhydd mae Rhys yn mwynhau chwarae gwyddbwyll twrnamaint; yn enwedig pan fydd yn ennill.

# Staff Rheoli'r Gynhadledd



# Staff Rheoli'r Gynhadledd



**Miss Helen Gibbons**

**Crynodeb gyrfa:**
Mae Helen wedi gweithio yn y maes Rheoli Digwyddiadau ers dros 25 mlynedd, ac, yn ogystal â gweithio i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 44ain Cynhadledd Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir, mae hi'n rhedeg cwmni digwyddiadau bach sy'n trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau eraill, gan gynnwys teithiau beic i godi arian ar gyfer elusennau, gwyliau chwaraeon ieuenctid, ciniawau corfforaethol a digwyddiadau i lansio cynnyrch.

**Diddordebau:**
Cerdded ar fynyddoedd gyda'r ci, sgwba-blymio, gwyliau dinas a phenwythnosau ar y traeth.



**Alice Randone**

Alice yw Pennaeth Digwyddiadau Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ogystal â threfnu a rheoli rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau, mae hi'n arwain ar ymgyrchoedd penodol a fydd yn rhan o waddol y Llywydd, megis yr ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus a'r ymgyrch Diffyg Democrataidd.



CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD
CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

COMMONWEALTH PARLIAMENTARY ASSOCIATION
NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES